

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Traffordd yr M4
(Cyffordd 32 (Coryton) i Gyffordd
33 (Capel Llanilltern), Caerdydd)
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau
Traffig Dro) 2021

The M4 Motorway (Junction 32
(Coryton) to Junction 33 (Capel
Llanilltern), Cardiff) (Temporary
Traffic Prohibitions & Restrictions)
Order 2021

Gwnaed 17 Medi 2021

Made 17 September 2021

Yn dod i rym 26 Medi 2021

Coming into force 26 September 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on specified lengths of the motorway should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 32 (Coryton) i Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Medi 2021.

1. The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 32 (Coryton) to Junction 33 (Capel Llanilltern), Cardiff) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2021 and this Order comes into force on 26 September 2021.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

2. In this Order—
“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26) section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1); a
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
 - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
 - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 26 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Gwaharddiadau a chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar naill ai cerbyttffordd tua'r gorllewin neu gerbyttffordd tua'r dwyrain y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4.—(1) Tra bydd cerbydau'n cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbyttffordd tua'r gorllewin, ond yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael eu gwahardd ar y gerbyttffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo fynd yn lôn allanol y gerbyttffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
 - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
 - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 26 September 2021 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Prohibitions and restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on either the westbound or eastbound carriageway of the lengths of the motorway specified in Schedule 1 to this Order.

4.—(1) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the westbound carriageway, but pursuant to article 10, not prohibited on the eastbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any motor vehicle to proceed in the offside lane of the eastbound carriageway in any direction other than westwards.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(2) Tra bydd cerbydau yn cael eu gwahardd, gan erthygl 3, rhag symud ar y gerbyttfordd tua'r dwyrain, ond yn unol ag erthygl 10, ddim yn cael eu gwahardd ar y gerbyttfordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur er mwyn peri neu ganiatáu iddo fynd yn lôn allanol y gerbyttfordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n fwy fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

9. Bydd y llain galed sy'n gyfagos i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar gael i'w defnyddio fel lôn draffig gan bob cerbyd modur, ac eithrio cerbydau sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach.

Cymhwyso

10.—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8 a 9 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Atal dros dro

11. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5, 6 a 7 yn weithredol.

12. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(1) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny sy'n ymwneud â gyrru cerbydau wedi eu hatal dros dro i'r graddau y maent yn gymwys

(1) O.S. 1982/1163.

(2) Whilst vehicle movement is, by article 3, prohibited on the eastbound carriageway, but pursuant to article 10, not prohibited on the westbound carriageway, no person may drive so as to cause or permit any motor vehicle to proceed in the offside lane of the westbound carriageway in any direction other than eastwards.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order.

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order.

8. No person may, during the works period, cause or permit any vehicle with a width of or exceeding 2.9 metres to proceed on the lengths of the motorway specified in Schedule 3 to this Order.

9. The hard shoulder adjacent to the lengths of motorway specified in Schedule 2 to this Order may be available for use as a traffic lane by all motor vehicles, except those vehicles with a width of or exceeding 2.9 metres.

Application

10.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8 and 9 apply only at such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Suspensions

11. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the relevant lengths of the motorway specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 5, 6 and 7 are in operation.

12. Regulation 5 of the Motorways Traffic (England and Wales) Regulations 1982(1) and the provisions of Regulation 9 of those Regulations relating to the driving of vehicles are suspended insofar as they

(1) S.I. 1982/1163.

i'r llain galed sy'n gyffiniol â'r darnau o gerbyttyrdd tua'r gorllewin a thua'r dwyrain y draffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, a chyfarwyddir traffig, gan erthygl 9, i ddefnyddio'r llain galed benodedig.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

apply to the hard shoulder which is contiguous with the lengths of the westbound and eastbound carriageways of the motorway specified in Schedule 2 to this Order and traffic is, by article 9, directed to use the specified hard shoulder.

Duration of this Order

13. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 September 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

ATODLEN 1 Gwrthlif a dim goddiweddyd

Y darn o gerbyttyrdd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi 700 metr i'r gorllewin o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton) am bellter o tua 2.6 cilometr.

Y darn o gerbyttyrdd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o'r man croesi 2.2 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) am bellter o tua 2.6 cilometr.

ATODLEN 2 Terfyn cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya dros dro a chaniatáu traffig ar y llain galed

Y darn o gerbyttyrdd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o bwynt 500 metr i'r dwyrain o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Cyfnewidfa Coryton) hyd at bwynt 1.7 cilometr i'r dwyrain o Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o gerbyttyrdd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at bwynt 200 metr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

SCHEDULE 1 Contraflow and no overtaking

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from the crossover point 700 metres west of the westbound exit slip road at Junction 32 (Coryton) for a distance of approximately 2.6 kilometres.

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the crossover point 2.2 kilometres east of Junction 33 (Capel Llanilltern) for a distance of approximately 2.6 kilometres.

SCHEDULE 2 Temporary 30 mph, 40 mph or 50 mph speed limit and trafficking of the hard shoulder

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from a point 500 metres east of westbound exit slip road at Junction 32 (Coryton Interchange) to a point 1.7 kilometres east of Junction 33 (Capel Llanilltern).

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 33 (Capel Llanilltern) to a point 200 metres west of the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 32 (Coryton).

ATODLEN 3

Gwahardd cerbydau llydan dros dro

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 32 (Coryton) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern).

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y draffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32 (Coryton).

SCHEDULE 3

Temporary prohibition of wide vehicles

The length of the westbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Junction 32 (Coryton) to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 33 (Capel Llanilltern).

The length of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 33 (Capel Llanilltern) to the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 32 (Coryton).